**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT**
**14 MEDI 2023**

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Iau, 14 Medi 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Teresa Carberry (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bill Crease, Paul Cunningham, Gladys Healey, Dave Mackie, Gina Maddison, Ryan McKeown, Carolyn Preece, David Richardson, Jason Shallcross ac Arnold Woolley

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Lynne Bartlett ac Wendy White

**DIRPRWY:**Y Cynghorydd Hilary McGuill (ar ran y Cynghorydd Andrew Parkhurst)

**YMDDIHEURIADAU:**Arweinydd y Cyngor,
Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden,
Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion),
Uwch Reolwr (Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Sorted Sir y Fflint)
Uwch Reolwr (Darpariaeth Ieuenctid Integredig)

**CYFRANWYR:**
Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden,
Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)
Rheolwr Cyllid Strategol (ar gyfer cofnod rhif 23)
Swyddogion GwE: Phil McTague (Arweinydd Craidd Uwchradd), Bryn Jones a David Edwards (Arweinwyr Craidd Cynradd) (ar gyfer cofnod 24)
Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) (ar gyfer cofnod rhif 25)
Uwch Reolwr (Gwasanaethau Cefnogi Busnes) (ar gyfer cofnod 25)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd

## 20. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Hilary McGuill gysylltiad personol gan fod ei merch yn athrawes yn Sir y Fflint.

## 21. COFNODION

29 Mehefin 2023

Derbyniwyd cofnodion cyd-gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y wybodaeth yr oedd y Cynghorydd Hilary McGuill wedi gofyn amdano ynglŷn â'r pedwar plentyn nad oedd mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant, a chadarnhaodd y Cynghorydd McGuill bod y wybodaeth wedi cael ei ddosbarthu trwy gyfrwng e-bost.

Cafodd cofnodion y cyd-gyfarfod eu cymeradwyo, a'u cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Hilary McGuill a'r Cynghorydd Carolyn Preece.

13 Gorffennaf 2023

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023 i'w cymeradwyo.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilary McGuill at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan NEWydd gyda disgyblion am y fwydlen newydd, a gofynnodd a fyddai modd rhoi diweddariad ar ôl yr hanner tymor i gynnwys adborth gan y disgyblion oedd wedi blasu'r fwydlen newydd. Fe awgrymodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod nodyn briffio ynglŷn â sut roedd y fwydlen yn cael ei dderbyn gan ddisgyblion yn cael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfod 30 Tachwedd.

Cafodd cofnodion y cyfarfod eu cymeradwyo, a'u cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Gladys Healey a'r Cynghorydd Hilary McGuill.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Mehefin a 13 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 22. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Wrth gyflwyno'r adroddiad, fe amlinellodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr eitemau sy'n cael eu cyflwyno yn y cyfarfodydd sydd i ddod, a oedd ynghlwm yn Atodiad 1, a dywedodd y byddai eitem ychwanegol ar yr ymgynghoriad am Ddisgrifiadau o Rôl Aelodau'n cael ei chyflwyno i'r cyfarfod nesaf ar 19 Hydref 2023. Fe ddywedodd hi hefyd bod gweithdy i bob Aelod am y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei drefnu ar gyfer dechrau mis Hydref ac y byddai cadarnhad o'r dyddiadau ac amseroedd yn cael eu hanfon i Aelodau maes o law.

Gan gyfeirio at yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu yn Atodiad 2, cadarnhaodd yr Hwylusydd bod cyfarfod cyntaf Grŵp Tasg a Gorffen Parcio Ysgol wedi'i drefnu ar gyfer 19 Medi er mwyn ystyried a chytuno ar Gylch Gorchwyl i'r Grŵp. Unwaith y caiff ei gytuno, bydd yn cael ei rannu gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi ac Addysg, Ieuenctid a Diwylliant. Roedd pob cam gweithredu arall wedi'i gwblhau.

Fe awgrymodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod yr adroddiadau canlynol yn cael eu hychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfod 1 Chwefror 2024:-

- Trosolwg o ganlyniadau Lefel A a TGAU yr haf ar ôl eu gwirio ym mis Rhagfyr 2023; ac
- Adolygu Strategaeth Ôl-16 - amlinellu sut yr oedd y comisiwn cenedlaethol newydd yn datblygu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilary McGuill at y datganiad a gyhoeddwyd gan Townlynx a'r amharu posibl i ran o'r gwasanaeth bws ysgol. Er ei bod yn cydnabod eu bod bellach wedi rhoi sicrwydd i'r cyhoedd nad oedd newidiadau i'r gwasanaeth yn cael eu cyflwyno, gofynnodd am sicrwydd hefyd gan y Cyngor ynglŷn â pha asesiadau risg oedd yn cael eu cynnal petai rhywbeth tebyg yn digwydd eto. Fe eglurodd y Prif Swyddog mai ei chydweithwyr yng Ngwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth oedd yn darparu cludiant ysgol felly byddai'r mater yma yn dod o dan gylch gwaith Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi. Dywedodd fod y mater yma ar gofrestr risg y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) ar gyfer gwasanaethau bws ysgol, a rhoddodd deyrnged i'w chydweithwyr yn y gwasanaeth a fu'n gweithio'n eithriadol o galed i ddod o hyd i ddatrysiadau cludiant amgen i 1100 o blant. Roedd hi hefyd yn falch bod y mater wedi cael ei ddatrys a bod y gwasanaeth bws wedi parhau i redeg.

O ran asesiadau risg, cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Mackie at bibell ddŵr a fyrstiodd yn Ewlo, gan olygu bod yr ysgolion yn yr ardal wedi rhedeg allan o ddŵr. Dywedodd ei fod yn bryderus nad oedd y cwmni dŵr wedi cysylltu â'r Cyngor na'r ysgolion i roi arweiniad/gwybodaeth am y mater yma. Wrth ymateb, cytunodd y Prif Swyddog i adrodd yn ôl i'r Tîm Rheoli Argyfwng yr hyn roedd y Cynghorydd Mackie wedi'i ddweud. Fe eglurodd y Prif Weithredwr bod materion o'r natur yma'n cael eu hystyried trwy gynllunio wrth gefn a bod materion fel hyn yn cael eu trin yn lleol drwy'r Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng. Fe awgrymodd bod gwybodaeth am y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng yn cael ei roi i'r Pwyllgor er mwyn iddynt ddeall y broses yn well. Fe awgrymodd y Cadeirydd y gallai hyn gael ei ddarparu mewn cyfarfod o'r Cyngor Sir er mwyn i'r holl Aelodau ddeall y broses. Cytunodd y Prif Weithredwr i ystyried sut y byddai'r wybodaeth yma'n cael ei rhannu gyda phob Aelod.

Cynigiodd y Cynghorydd Carolyn Preece yr argymhellion, sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd David Richardson.

Fe awgrymwyd bod y ddau adroddiad a awgrymwyd gan y Prif Swyddog yn cael eu cynnwys ar y RhGD a byddai'n cael ei bigo fel camau yn deillio o'r cyfarfod, ynghyd â dosbarthu gwybodaeth am y Tîm Ymateb a Rheoli Argyfwng.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu nad oedd wedi'u cwblhau.

## 23. NEWID I DREFN Y BUSNES

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai yna newid i drefn y busnes a byddai eitem rhif 6 ar y rhaglen yn cael ei ystyried cyn eitem rhif 5 ar y rhaglen.

## 24. CRONFEYDD WRTH GEFN YSGOLION Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN AR 31 MAWRTH 2023

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad a diolchodd y Rheolwr Cyllid Strategol am y gwaith a wnaed yn dod â'r adroddiad at ei gilydd a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Fforwm Cyllideb yr Ysgol. Roedd yr adroddiad wedi cael ei rannu gyda phob Pennaeth hefyd.

Cyn cyflwyno'r adroddiad, cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Strategol at dabl 3 yn yr adroddiad a dywedodd fod fersiwn diwygiedig wedi cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod. Roedd yr adroddiad yma wedi cael ei ymestyn i gynnwys chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol bresennol i roi amlinelliad o'r sefyllfa bresennol mewn ysgolion a thynnodd y Rheolwr Cyllid Strategol sylw at y gostyngiad mewn cyllid o 3% ar ben y cynnydd mewn chwyddiant i ysgolion yn y flwyddyn ariannol bresennol. Roedd rhan gyntaf yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa o ran y cronfeydd wrth gefn ac roedd Tabl 1 yn amlygu'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 o'i gymharu â 2021/22. Rhoddwyd gwybodaeth am yr effeithiau ar gyllidebau ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, gyda gostyngiad o £12.5miliwn i £7miliwn, ac roedd yr atodiad yn tynnu sylw at y canrannau ar sail ysgol wrth ysgol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Strategol at Dabl 2 oedd yn amlygu sut roedd y cronfeydd wrth gefn wedi symud dros y 5 mlynedd ariannol ddiwethaf. Roedd yna bryderon o ran cadernid y sector uwchradd wrth reoli amgylchiadau annisgwyl, megis absenoldeb hir dymor a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael. Rhoddodd yr adroddiad ddadansoddiad hefyd ar gyfer y sector cynradd, roedd gan chwe ysgol gynradd gronfeydd wrth gefn negatif ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, roedd tri o'r rhain yn gymharol fach, ond roedd y tri arall yn sylweddol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Cyllid Strategol fod pob ysgol wedi cyflwyno eu cynlluniau cyllideb 2023/24 oedd yn amlygu cynnydd mewn ceisiadau am gefnogaeth gan y Tîm Cyllid, cydweithwyr AD a chydweithwyr mewn Gwella Ysgolion. Bu yna lefelau uwch o ddiswyddiadau gwirfoddol, ac roedd y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn Nhabl 5 yr adroddiad. Byddai'r Cyfrifiad Gweithlu Blynyddol a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Tachwedd yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol, ond teimlwyd nad oedd y sefyllfa o ran diswyddo drosodd eto gan fod ysgolion yn defnyddio eu cronfeydd wrth gefn i reoli eleni gyda risgiau yn 2023/24 neu 2024/25. Roedd Tabl 6 yn yr adroddiad yn rhoi amcangyfrif o'r sefyllfaoedd ym mhob ysgol a rhoddwyd trosolwg o'r wybodaeth a ragwelir o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr amseroedd heriol yn parhau gyda gostyngiadau cyffredinol yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion a theimlwyd bod yr adroddiad yn amlygu'r sefyllfa gydag ysgolion yn glir. Diolchodd i Benaethiaid a chyrff llywodraethu am eu gwaith yn ceisio lleihau costau, ac roedd hi'n llwyr ddeall eu rhesymau dros siarad gyda'r Cyngor a GwE i gael help a chymorth.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gladys Healey am glustnodi cyllidebau ysgolion, fe eglurodd y Rheolwr Cyllid Strategol fod cyllid ysgolion ar gyfer y flwyddyn ariannol wedi'i fformiwleiddio ar ôl i'r Cyngor osod ei gyllideb

ganol fis Chwefror. O ran y cyllid ar gyfer y dyfarniadau cyflog, fe eglurwyd bod amcangyfrif o'r gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon ac nid oedd dyfarniad cyflog staff cefnogi yn hysbys ym mis Ebrill 2023. Roedd y Cyngor wedi cyllidebau ar gyfer y gost, ond nid oedd y rhain wedi cael eu dyrannu drwy'r fformiwla ariannu nes bod cadarnhad wedi'i gael gan yr ysgolion sydd â'r costau. Mae hyn wedi gweithio'n dda yn y gorffennol gan fod yr ysgolion wedi derbyn swm y dyfarniad cyflog ac nid amcangyfrif. Cadarnhaodd y Prif Swyddog fod ysgolion yn cytuno â'r ddealltwriaeth yma y byddai'r arian yn cael ei ryddhau i'w cyllidebau pan roedd y dyfarniadau wedi'u setlo a'u cwblhau. Roedd cyfathrebu gyda Phenaethiaid a chyrff llywodraethu yn parhau nes bod y dyfarniadau cyflog wedi'u setlo.

Gan ymateb i gwestiwn am gronfeydd wrth gefn ysgolion, fe eglurodd y Prif Swyddog na ddylai unrhyw ysgol fod dan anfantais. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Strategol na ddylai ysgolion fod yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu dyfarniadau cyflog gan fod y risg yn un canolog. Cyn gynted â bod dyfarniad cyflog mis Medi wedi'i gadarnhau gyda'r Cyngor yn derbyn dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon, byddai cyflog yr Athrawon yn mynd i fyny a byddai'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r ysgolion i dalu am y swm hwnnw.

Roedd y Prif Swyddog yn gwerthfawrogi'r flwyddyn heriol roedd Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu wedi'i gael. Rhoddwyd ymrwymiad yr un fath â'r llynedd, wrth i'r gyllideb ar gyfer 2024/25 ddatblygu, byddai cyfathrebu agored ac effeithiol yn parhau gyda Phenaethiaid er mwyn eu diweddaru am y trafodaethau'n cael eu cynnal cyn cael cyllideb gyfreithiol a chytbwys ym mis Chwefror.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Arnold Woolley a'i eilio gan y Cynghorydd Hilary McGuill.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi lefel cronfeydd wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth 2023 a throsolwg o sefyllfa ariannol gyfredol ysgolion.

## 25. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN WASANAETH RHANBARTHOL GWELLA YSGOLION, GwE

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad oedd yn darparu trosolwg manwl o waith Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol gydag ysgolion Sir y Fflint yn ystod blwyddyn academaidd 2022 -2023.

Fe nodwyd yn yr adroddiad fod yna berthynas gref rhwng Cyngor Sir y Fflint a Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE). Roedd yna weithdrefnau cadarnhaol ar waith i osod cyfeiriad a dwyn y gwasanaeth rhanbarthol
i gyfrif. Roedd rolau penodol yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol mewn gwella ysgolion yn amlwg ac yn glir i bob budd-ddeiliaid ac roeddynt yn cael eu dwyn i gyfrif yn effeithiol gan weithdrefnau craffu lleol.

Gwahoddodd y Prif Swyddog Mr. Phil McTague, Mr. Bryn Jones a Mr. David Edwards o GwE i gyflwyno'r adroddiad ymhellach.

Tra'n cyflwyno'r adroddiad, fe eglurodd Mr. Phil McTague (Arweinydd Craidd Uwchradd), fod y gwasanaeth wedi symud ymlaen o'r pandemig i ail ddylunio'r Cwricwlwm. Rhoddodd fanylion y pedwar prif faes mewn cysylltiad ag ysgolion uwchradd, sef:-

Maes Allweddol 1 – Gwella Arweinyddiaeth
Maes Allweddol 2 - Gwella Addysgu a Dysgu
Maes Allweddol 3 - Cwricwlwm a Darpariaeth
Maes Allweddol 4 - Cynnydd a Safonau Dysgwr

Tynnodd Mr. McTague sylw'r Aelodau at Atodiad 1 yr adroddiad oedd yn cynnwys crynodeb o'r pedwar maes allweddol ar gyfer ysgolion uwchradd. Dywedodd fod gwella arweiniad mewn ysgolion yn hanfodol i dwf unrhyw ysgol, ac amlinellodd newidiadau mewn Penaethiaid a heriau y mae ysgolion uwchradd yn eu hwynebu ar draws Sir y Fflint. Rhoddwyd gwybodaeth am broffil Penaethiaid, ac fe gadarnhawyd fod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal i wella ansawdd arweiniad gyda systemau hunanwerthusiad cadarn oedd yn rhai mewnol, dan arweiniad gwasanaeth, gyda gwybodaeth gan Awdurdod Lleol ond roeddynt bellach wedi'u proffilio'n genedlaethol drwy Fframwaith Gwella Ysgolion.

Rhoddwyd trosolwg o gynllunio data mewn ysgolion uwchradd ac roedd gan y mwyafrif o ysgolion brosesau hunanwerthuso clir ar waith yn enwedig gyda'r hyfforddiant wedi'i ddarparu ar gynllunio gwella. Darparwyd gwybodaeth am y cynlluniau cefnogi wedi'u targedu oedd ar waith ar gyfer rheoli perfformiad mewn ysgolion uwchradd. Darparwyd amlinelliad o'r gwersi oedd wedi cael eu harsylwi mewn ysgolion a chweched dosbarth, ynghyd â throsolwg o'r meysydd yr oedd angen eu datblygu dros y flwyddyn i ddod.

Cyfeiriodd Mr. McTague at y Cwricwlwm, ac eglurodd fod pob uwch arweinydd yn yr ysgolion uwchradd yn gweithio'n galed wrth atgyfnerthu'r weledigaeth i ddylunio'r Cwricwlwm, gan gydnabod cryfderau a gweithio gyda budd-ddeiliaid. Roedd pob ysgol yn Sir y Fflint yn rhan o gynghreiriau gydag ysgolion eraill a rhoddwyd amlinelliad o'r manteision a byddai'n rhan o'r fframwaith gwella wrth symud ymlaen. Roedd yna feysydd i fynd i'r afael â nhw megis parhau i weithio ar y cyfnod pontio a dulliau cyson o flynyddoedd 5 i 8, parhau i gynnal cyfarfodydd gyda'r cynghreiriau a sefydlwyd er mwyn rhannu arfer da a bod GwE a Sir y Fflint yn parhau i weithio ochr yn ochr ag ysgolion i ddatblygu dulliau a phrosesau asesu i dracio disgyblion yn unol â'r newidiadau yn y Cwricwlwm.

Gan gyfeirio at gynnydd Dysgwyr a safonau, fe eglurwyd yn y mwyafrif o ysgolion, roedd disgyblion yn gwrando, yn dangos parch tuag at athrawon a'i gilydd. Roedd y mwyafrif o wersi'n cael eu darparu mewn amgylchedd cynhyrchiol, strwythuredig gyda pharodrwydd i gyfrannu at drafodaethau mewn dosbarthiadau. Roedd modd i ddisgyblion gynnig ymatebion ystyrlon a thrylwyr ar lafar gyda geirfa eang yn cael ei ddefnyddio.

Tynnodd Mr. Bryn Jones a Mr David Edwards (Arweinwyr Craidd Cynradd) sylw'r Aelodau at Atodiad 2 yr adroddiad oedd yn darparu crynodeb o'r pedwar

maes allweddol ar gyfer ysgolion cynradd. O ran y sector cynradd, rhoddwyd trosolwg o wella arweinyddiaeth ar draws ysgolion Sir y Fflint, ynghyd â gwybodaeth am raglenni Arweinyddiaeth Genedlaethol. Cafodd arweinwyr ysgolion eu cefnogi drwy'r cynlluniau 360 gradd, Rhaglen Partneriaeth Ysgol a chydweithio gydag ysgolion uwchradd o fewn cyfarfodydd clwstwr. Fe eglurwyd pan oedd hunanwerthusiad yn cael ei gynnal yn effeithiol mewn modd cyfannol, roedd hyn yn gysylltiedig â gwella cynllunio a oedd yna'n gysylltiedig â chefnogaeth i gefnogi meysydd a nodwyd.

Cyfeiriodd Mr. Jones at 12 egwyddor addysgeg a oedd wedi'u sefydlu ar draws ysgolion cynradd Sir y Fflint, a rhoddwyd rhagor o wybodaeth am hyn. Gan gyfeirio at feysydd o welliant, rhoddwyd trosolwg o amrywiadau mewn ysgolion, ynghyd â chysylltiadau gydag arweinyddiaeth i ddatblygu'r Gymraeg ar draws yr awdurdod. Rhoddwyd gwybodaeth hefyd am y ddarpariaeth Cwricwlwm sydd wedi'i ddarparu mewn ysgolion cynradd ynghyd â gwybodaeth am y gwaith a wnaed ar ôl Covid mewn ysgolion i wella safonau ar gyfer lles ac annibyniaeth disgyblion i hwyluso cynnydd da mewn dysgu.

Ar ôl darllen yr adroddiad, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn teimlo bod y gweithlu addysg ar bob lefel yn parhau a diddordeb i wella eu sgiliau a'u harbenigedd drwy ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd hi'n falch bod datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei ddarparu gan ei fod yn dangos eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod ganddynt ddiddordeb yn eu lles, datblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd. Roedd hi hefyd yn ystyrlon o'r rhwystrau a gwrthbwysau effeithiol oedd yn canfod unrhyw bryderon ar lefel unigol ac ysgol gyfan yn gyflym iawn.

Croesawodd y Cynghorydd Paul Cunningham yr adroddiad yr oedd o'n teimlo oedd yn tynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud ac yn dangos bod staff ysgol yn awyddus i ddatblygu eu haddysg i wella eu cryfderau a strategaethau gwaith. Cefnogodd y Cynghorydd Carolyn Preece sylwadau'r Cynghorydd Cunningham ac fe longyfarchodd y portffolio a'r tîm ond dywedodd fod yna bob amser lle i wella.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gladys Healey am asesiadau a datganiad ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod athrawon bob amser yn asesu disgyblion o ran eu gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau a sgiliau. Ar gyfer y plant a oedd yn cael anawsterau ac nad oedd yn datblygu roedd yna brosesau sefydledig er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei rhoi ar waith.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Datblygiad) sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (ALNET) yn lleihau'r amserlenni o 26 wythnos. O dan ALNET roedd modd i ysgolion ymgymryd â'r broses hon cyn gynted â bod plentyn yn cael ei asesu bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol posibl. Rhiant, gweithiwr iechyd proffesiynol neu rywun yn yr ysgol fydd hwn, a bydd yr asesiad yn cychwyn o'r pwynt hwn. Roedd hyfforddiant wedi cael ei roi mewn ysgolion gan ystyried eu rolau o fewn ALNET a newidiwyd yr amserlenni er mwyn sicrhau nad oedd disgyblion yn aros yn rhy hir am asesiad er mwyn bodloni eu hanghenion.

Dywedodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles bod ysgolion yn ystyried lles pob plentyn ar draws y Cwricwlwm a'u bod yn gofalu am y plentyn a'r teulu. Roedd hi'n falch o weld eu bod wedi sôn am gyllid Quiet Place a PGD a oedd yn cael ei ddefnyddio'n dda ym mhob ysgol. Dylai ysgolion gael eu dathlu am y gwaith roeddynt wedi'i wneud gyda disgyblion mewn ysgolion oedd yn ymwneud â lles a diogelu.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dave Mackie am gyrsiau hyfforddi, fe eglurodd y Prif Swyddog bod yna atodiad na chafodd ei atodi i'r adroddiad oedd yn darparu ystadegau hyfforddiant ac awgrymodd bod hwn yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod. Roedd hi'n teimlo bod yr adroddiad yma a'r Adroddiad Hunan-werthuso yn rhoi sicrwydd bod yna lawer iawn o ymgysylltu proffesiynol ar bob lefel gan staff.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Mackie am ganlyniadau TGAU, fe eglurodd y Prif Swyddog, nid oedd gan yr Awdurdod Lleol hawl ers nifer o flynyddoedd i adrodd am berfformiad ysgol unigol, ac roedd y data yma i'r ysgolion eu hunain ddefnyddio ar gyfer eu siwrneiau gwella eu hunain. Fe ymgeisiodd y portffolio i gael gwelliannau mewn ysgolion, a chytunwyd y byddai adroddiad diweddaru'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Chwefror unwaith y bydd canlyniadau eleni wedi cael eu gwirio. Cafodd sicrwydd gan Benaethiaid a chydweithwyr GwE fod y gwelliant mewn ysgolion wedi'u hadlewyrchu yn eu dogfennau hunanwerthuso unigol a blaenoriaethau yn eu Cynlluniau Gwella Ysgol. Roedd gan bob ysgol Gynllun Gwella Ysgol a chynlluniau cefnogi gan GwE, ac roedd hyn yn flaenoriaeth i barhau i wella'r canlyniadau i ddysgwyr yn eu cymwysterau.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Hilary McGuill yn ymwneud â chefnogaeth cwnselydd trawma i bobl ifanc sy'n ffoaduriaid, cyfeiriodd y Prif Swyddog at adroddiad hunan-werthuso'r Awdurdod Lleol oedd yn cynnwys lles disgyblion, ymarfer sy'n seiliedig ar drawma ac effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Fe amlinellodd yr adroddiad y gefnogaeth a'r hyfforddiant roedd staff wedi'i gael mewn ysgolion i gefnogi disgyblion gan ddefnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar drawma a chyfeiriwyd at hyn yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Datblygiad) fod yna lawer o waith yn digwydd mewn ysgolion mewn cysylltiad ag ymarfer sy'n seiliedig ar drawma. Roedd digwyddiad codi ymwybyddiaeth wedi cael ei gynnal i uwch swyddogion yr Awdurdod Lleol a staff yr ysgolion a oedd yn cynnwys y Prif Swyddog. Roedd mynediad hefyd yn cael ei roi i'r Diploma sy'n Seiliedig ar Drawma 11 diwrnod o hyd. I ddechrau roedd yn cael ei dargedu at yr unigolyn dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion, ond mae wedi cael ei ymestyn yn ehangach. Mae'r cyfle yma'n rhoi mewnwelediad manwl i ymarfer sy'n seiliedig ar drawma a fyddai'n cael ei dargedu at blant sy'n derbyn gofal. Roedd ysgolion yn cael eu hannog i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ymarfer sy'n seiliedig ar drawma, ond roedd hyn yn cael ei yrru gan bob uwch swyddog ar draws y portffolio er mwyn sicrhau ei fod hefyd yn digwydd ym mhob gwasanaeth. Yna fe gyfeiriodd at Wasanaeth Cwnsela Pobl Ifanc a oedd yn gweithio'n agos gyda ffoaduriaid a phwysleisiodd bwysigrwydd eglurder ar rolau gwasanaethau'r Cyngor ac ymarferwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc gan fod y rhain yn swyddi eithaf gwahanol. Fe amlinellodd y ffyrdd gwahanol o weithio yn y sectorau cynradd ac uwchradd a chyfeiriodd at

wasanaeth Mewngymorth CAHMS oedd yn gweithredu o dan y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei ddyrannu i bob ysgol. Roedd y gwasanaeth yma'n gweithio ar y rhaglen hyfforddiant iechyd meddwl i ysgolion er mwyn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi nhw i adnabod anghenion iechyd meddwl a darparu'r lefel honno o gefnogaeth o safbwynt yr ysgol.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Paul Cunningham a'i eilio gan y Cynghorydd Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Blynyddol 2022-2023 ac effaith cadarnhaol y Gwasanaeth Rhanbarthol yn cefnogi ysgolion Sir y Fflint, gan gadw'r ffocws ar ysgolion effeithiol a llwyddiannus.

## 26. ADRODDIAD HUNANWERTHUSO GWASANAETHAU ADDYSG 2022-23

Wrth gyflwyno'r adroddiad, eglurodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) bod yr adroddiad wedi cael ei lunio yn unol â Fframwaith Estyn presennol ar gyfer Archwilio Gwasanaethau Llywodraeth Leol oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau, cydraddoldeb gwasanaethau addysg, arweinyddiaeth a rheoli. Fe gadarnhaodd bod Estyn yn dod at ddiwedd y gylched arolygu, a'u bod yn disgwyl bod wedi gorffen eu harolygon erbyn diwedd haf 2024.

Dywedodd y Prif Swyddog fod Estyn wrthi'n llunio fframwaith newydd o hydref 2024 ymlaen. Fe eglurwyd er bod yr Awdurdod wedi cael ei arolygu yn 2019, roedd yn debygol y gallai'r arolwg nesaf fod yn agos at ddechrau'r fframwaith newydd, gyda gwaith cynllunio yn parhau ar gyfer cychwyn y gylched nesaf o arolygon. Fe amlygwyd yr argymhellion a wnaed gan Estyn yn yr adroddiad a oedd hefyd yn darparu crynodeb fanwl o waith sy'n cael ei wneud i ymateb i'r argymhellion.

Gofynnodd y Cynghorydd Hilary McGuill am eglurhad am y Graddau Cyflwr a restrwyd yn A, B, C a D a nodwyd yn rhan o'r Arolwg Addasrwydd. Fe eglurodd y Prif Swyddog fod arolygon yn cael eu cynnal ar ystâd yr ysgol ar sail gylchol, oedd yn cynnwys arolygon am addasrwydd yr adeilad i ddarparu darpariaeth addysg briodol. Roedd yna hefyd arolwg am gyflwr adeiladau ysgolion yn erbyn safonau'r diwydiant ac roedd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i benderfynu lle'r oedd angen gwaith cynnal a chadw hanfodol neu raglen moderneiddio ysgolion radical. Fe awgrymodd fod yr Uwch Reolwr Cynllunio Lleoedd Ysgol yn rhoi nodyn briffio byr ar ôl y cyfarfod er mwyn egluro'r gwahaniaethau yn y graddau cyfle i'r Pwyllgor.

Cafodd yr argymhelliad, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Hilary McGuil, a'i eilio gan y Cynghorydd Carolyn Preece.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi canlyniad adroddiad hunanwerthuso blynyddol y Portffolio Addysg ar ansawdd gwasanaethau addysg ar gyfer cyfnod 2022 - 2023.

## 27. <u>AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL</u>

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.14 pm)

..............................

**Cadeirydd**